**LC460**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 8 (Cymru) a Darpariaethau Trosiannol, Arbedion, Darpariaethau Canlyniadol a Darpariaethau Diwygio) 2002**

Mae hwn yn dwyn i rym ar 1 Ebrill 2002 amryw o ddarpariaethau Deddf Safonau Gofal 2000. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau manwl a helaeth mewn perthynas â'r cychwyniadau hynny.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nodwyd bod paragraffau 2(5) a (11), a 4(5)(b) ac (11) o Atodlen 1 yn datgan bod darpariaethau penodol o'r Atodlen honno i fod heb ragfarn i ddarpariaethau yn y Ddeddf Dehongli a Deddf Llywodraeth Cymru.

Gan dderbyn y gall fod, mewn gorchymyn cychwyn, gyfiawnhad am y cyfeiriadau hyn mewn perthynas â'r Ddeddf Dehongli, o dderbyn mai dim ond yn y sefyllfa “unless the contrary intention appears” y mae adrannau 16 a 23 o'r Ddeddf honno yn gymwys, credwyd bod y cyfeiriadau at adran 63 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn amhriodol ac yn ddiangen o dderbyn y bydd is-ddeddfwriaeth o angenrheidrwydd islaw deddfwriaeth sylfaenol.

Mae sylwadau a gyflwynwyd ar ran y Gweinidog wedi esbonio mai'r rheswm dros “the express subjection of the Order to the Government of Wales Act” oedd “to draw attention to the fact that the benefit to be had from a person being afforded an oral hearing before a committee of the Assembly was still potentially there” Mae'r sylwadau a gyflwynwyd ar ran y Gweinidog yn derbyn y gellid bod wedi ymdrin â hyn yn fwy priodol mewn troednodyn ond gan honni bod modd dadlau bod “such surplusage in drafting is not

necessarily defective". Fel enghraifft, cyfeirir at Omar Parks Ltd v Elkington [1992] 1 WLR 1270 yn 1273, lle dywedodd yr Arglwydd Ustus Nourse LJ:

> "If a long experience of legislative drafting had brought with it a conviction that an Act of Parliament never included words of surplusage, that would no doubt have been a persuasive point. But that is not our experience and I for one do not complain of it. An emphasis of the obvious, unnecessary to a judge who has had the benefit of argument, may yet be welcome to a busy practitioner who has not.".

Y pwynt cyntaf i'w nodi mewn perthynas â'r sylwadau a gyflwynwyd ar ran y Gweinidog yw bod y cyfeiriadau at Ddeddf Llywodraeth Cymru wedi cael eu cynnwys i dynnu sylw at y ffaith bod posibilrwydd yn parhau i berson gael gwrandawiad llafar gerbron un o bwyllgorau'r Cynulliad. Er hynny, ar y sail hon, mae'n ymddangos y dylai'r cyfeiriadau wedi bod yn gyfeiriadau fod at adran 62 o'r Ddeddf yn hytrach nag at adran 63 gan mai adran 62 sy'n awdurdodi dirprwyo i bwyllgor – mae adran 63 yn awdurdodi dirprwyo i staff.

Yn fwy sylfaenol, er hynny, mae'r Pwyllgor yn parhau o'r farn bod y cyfeiriadau at adran 63 yn amhriodol a diangen, ac y buasent yr un fath pe baent yn gyfeiriadau at adran 62. Ni welir bod hyn yn eiriad a allai ddarparu eglurhad neu gadarnhad a fyddai o gymorth ond fe'i gwelir fel geiriad sy'n anghyson â'r egwyddorion sylfaenol sy'n gweithredu ynghylch y berthynas rhwng is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth sylfaenol. Yn wir, gallai'r ffaith bod geiriad o'r fath yn cael ei gynnwys o gwbl roi'r argraff gamarweiniol bod is-ddeddfwriaeth yn gallu disodli deddfwriaeth sylfaenol os na fyddai darpariaeth "heb ragfarn" wedi'i chynnwys. Cafwyd enghreifftiau o'r Cyd-bwyllor Offerynnau Statudol yn cyflwyno adroddiad ar offerynnau am gynnwys cyfeiriadau o'r fath.

Mae'r Pwyllgor gan hynny yn dwyn sylw at y ddarpariaeth hon ar y sail bod cyfeiriadau at Ddeddf Llywodraeth Cymru ym mharagraff 2(5) a 4(5)(b) o Atodlen 1 yn amhriodol a diangen o dderbyn bod is-ddeddfwriaeth o angenrheidrwydd islaw deddfwriaeth sylfaenol, a bod hyn yn gyfystyr â drafftio diffygiol neu, yn y man lleiaf, yn ddrafftio nad yw'n unol â'r arfer cyffredin.

**Sylwadau Cyffredinol**

Mewn perthynas â'r pwyntiau canlynol awgrymwyd ar ran y Gweinidog fod modd ymdrin â'r rhaid wrth eu hargraffu. Derbynnir y byddai'n briodol ac yn ddymunol i'r cywiriadau

angenrheidiol gael eu gwneud yn y modd hwn.  Mewn perthynas ag absenoldeb y dyddiad gwneud, er hynny, nodir mai'r pryder yn y fan hon yw y dylid bod wedi cwblhau'r copi o'r gorchymyn a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

**Y Nodyn Esboniadol**

Mae angen Nodyn Esboniadol ynghyd a nodyn o'r cychwyniadau blaenorol.

**Dyddiad Gwneud**

Nodir bod y gorchymyn hwn wedi'i wneud ar 28 Mawrth 2002, ond nid yw'r dyddiad yn ymddangos ar y copi a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

**Y rhaglith a'r geiriau deddfu**

Ymddengys bod hwn yn dod o flaen “Trefn y Gorchymyn”.  Yr arfer cyffredinol, fel yr esboniwyd ym mharagraff 2.22 o'r *Statutory Instrument Practice*, yw i'r rhaglith ymddangos ar ôl tabl y drefn gan nad yw tabl y drefn yn rhan o'r offeryn fel y cyfryw.

**Y rhaglith – troednodyn (a)**

Mewn gwirionedd dylai hwn gynnwys cyfeiriad at  adran 5 o Ddeddf i alluogi defnyddwyr i gadarnhau bod “the Assembly” yn adran 121(1) yn cyfeirio at  Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Erthygl 1(2) – “the 1984 Act”**

Mae troednodyn (a) yn enwi rhif y bennod yn 24.  Dylai fod yn 23.

**Atodlen 1, paragraff 1(1)**

Yn y diffiniad o “registered children’s home” ymddengys y dylai “means home” fod yn “means a home”.

**Atodlen 1, paragraff 6(7)(a)(ii)(bb)**

Defnyddir iaith gender-benodol.

**Atodlen 3**

Ni chafodd yr erthygl berthnasol neu'r erthyglau perthnasol eu henwi wrth ochr y pennawd.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

**23 Ebrill 2002**